Hawdd ei Ddeall

CYMRU YNG NGHAEREDIN
WALES IN EDINBURGH

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Gŵyl Ymylol Caeredin

## Arian i artistiaid a sefydliadau yng Nghymru fynd i Gaeredin

Tachwedd 2025

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cymru yng Nghaeredin**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 22**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Am y Rhaglen Cymru yng Nghaeredin ........................ 4

Pwy sydd yn gallu gwneud cais.................................... 6

Am y gronfa ........................................................................ 7

Sut i wneud cais ................................................................10

Beth sy'n rhaid ei roi yn eich cynnig ..........................12

Hygyrchedd .......................................................................20

Cysylltu â ni ......................................................................21

Geiriau anodd ...................................................................22

# Am y Rhaglen Cymru yng Nghaeredin

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**.



Mae’r canllaw yma am ein rhaglen **Cymru yng Nghaeredin**.



Mae’r rhaglen yn gronfa sy’n helpu artistiaid o Gymru i ddangos eu gwaith yng Ngŵyl Ymylol Caeredin.



Gŵyl Ymylol Caeredin ydy’r ŵyl gelfyddydol fwyaf yn y byd.



Mae’r rhaglen yn cefnogi theatr, dawns, cerddoriaeth a syrcas o Gymru.



Mae'r rhaglen yn helpu artistiaid a grwpiau celfyddydol o Gymru sydd â gwaith yn barod i'w berfformio.




Mae'n eu helpu i:

- Dangos eu gwaith i bobl o bob rhan o'r byd.
- Cyfarfod pobl newydd a gwneud cysylltiadau defnyddiol.
- Dod o hyd i gyfleoedd i deithio eu gwaith yn y dyfodol.




**Y dyddiad cau i wneud cais ydy 1:00pm ar 12 Ionawr 2026.**




Fe fydd y canllaw yma yn dweud mwy wrthych chi am yr arian yma. A sut rydych chi'n gallu gwneud cais amdano.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais

Rydych chi'n gallu gwneud cais os ydych chi yn:



- Sefydliad celfyddydol sydd wedi'i leoli yng Nghymru.



- Gweithiwr proffesiynol creadigol sy'n byw yng Nghymru.



- Rhywun gyda hanes cryf o weithio yng Nghymru.

# Am y gronfa




Fe fyddwn ni’n cefnogi 3 neu 4 artist neu sefydliad.



Rydych chi’n gallu gofyn am hyd at £30 mil o bunnoedd.



Rhaid i’ch gwaith chi fod yn barod i’w berfformio. Fe ddylech chi allu mynd â’ch gwaith ar daith.



Mae’r gronfa yma yn helpu i dalu am rai costau. Ni fydd yn talu am bopeth.



**Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i dalu am:**

- Llogi lleoliad ac offer.
- Marchnata.
- Llety.
- Ffioedd perfformiad.
- **Cymorth mynediad.**



Mae **mynediad** yn meddwl gallu cymryd rhan. Er enghraifft, gallu mynd i mewn i le. Neu gallu defnyddio rhywbeth.



Rydyn ni'n gallu talu **costau mynediad** personol i bobl sy'n rhan o'ch prosiect.

## Pryd i wneud cais




Anfonwch eich cais i ni erbyn **1:00pm ar 12 Ionawr 2026**.




Fe fyddwn ni'n dweud beth ydy'r canlyniadau erbyn 23 Chwefror 2026.

## Sut fyddwn ni'n dewis pwy i'w gefnogi



Fe fydd panel o arbenigwyr ac aelodau o'n tîm yn edrych ar bob cais.



Fe fyddwn ni'n cefnogi prosiectau fydd yn elwa fwyaf o fod yng Ngŵyl Ymylol Caeredin.

# Sut i wneud cais




Rhaid i chi anfon eich cais trwy ein porth ar-lein: porth.celf.cymru

**Mae angen i chi gynnwys:**



**1. Ffurflen gais –** wedi'i llenwi ar-lein.




**2. Eich cynnig –** eich syniadau a'ch cynlluniau. Mae hyn yn gallu bod hyd at 5 tudalen o A4. Anfonwch eich cynnig i ni fel dogfen Word neu PDF. Defnyddiwch faint ffont 12 neu fwy.



**3. Costau eich prosiect.** Defnyddiwch ein templed cyllideb.

**4. Dogfennau eraill, fel:**



- Cynllun marchnata – sut rydych chi'n bwriadu dweud wrth bobl am eich gwaith.



- Cytundeb llogi lleoliad.



- Llythyrau o gefnogaeth.





- Adolygiadau neu ddolenni i'ch gwaith. Rhaid rhoi fideo neu sain fel dolenni gwefan. Os oes angen cyfrinair ar ddolenni, dywedwch beth ydy hynny.

# Beth sy’n rhaid ei roi yn eich cynnig



Esboniwch eich prosiect a’ch cynlluniau’n glir. Rhowch wybodaeth am:

## Eich prosiect




- Sut fydd eich perfformiad o ansawdd uchel.
- Beth sy’n gwneud eich gwaith yn arbennig ac yn gyffrous.
- Pwy ydy’r gynulleidfa a sut fyddwch chi’n eu cyrraedd.
- Pam ydych chi wedi dewis eich lleoliad.
- Sut fyddwch chi’n dweud wrth bobl am eich gwaith.
- Eich cynlluniau ar gyfer teithiau o’ch gwaith yn y dyfodol.
- Sut fyddwch chi’n defnyddio’r cyfleoedd fyddwch chi’n eu cael o fod yng Ngŵyl Caeredin.

## Eich gwaith



- Ble mae eich gwaith wedi cael ei ddangos o’r blaen a sut roedd pobl yn ei hoffi.
- Pam mai nawr ydy’r amser iawn i’ch gwaith fod yn yr Ŵyl.
- Sut fydd eich gwaith yn gallu cael ei deithio yn y dyfodol.

## Teithio



- Pa deithio rydych chi wedi’i wneud o’r blaen.
- Eich cynlluniau teithio yn y dyfodol yn y DU neu i wledydd eraill.
- Pa gefnogaeth ydych chi ei angen gyda theithio.

## Rheoli’r prosiect



- Pa leoliad fyddwch chi’n ei ddefnyddio a’ch cytundeb gyda nhw.

- Sut fyddwch chi’n gweithio gyda phartneriaid newydd.

- Sut ydych chi’n gallu elwa o fod yn yr Ŵyl. Mae hyn yn gallu bod trwy wneud arian neu dyfu fel perfformiwr.

## Celfyddydau a diwylliant Cymru



- Sut fydd eich gwaith yn dangos ac yn dathlu celfyddydau a diwylliant Cymru.

- Sut fydd eich presenoldeb yn yr Ŵyl yn helpu’r celfyddydau yng Nghymru.



## Arian

- Eich cyllideb a'ch cynlluniau ar gyfer sut fyddwch chi'n gwneud arian.

- Sut fyddwch chi'n cael arian ychwanegol os oes angen.



## Amgylchedd

- Sut fyddwch chi'n gwneud i'ch prosiect ddefnyddio llai o ynni a chreu llai o wastraff.

- Sut fydd eich prosiect chi yn well i'r **amgylchedd**.

> Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Sut rydych chi'n cyd-fynd â'n nodau



Dangoswch i ni sut mae eich prosiect yn cefnogi 1 neu fwy o'n prif nodau. Ein prif nodau ydy:

**Creadigrwydd**

Rydyn ni eisiau:



- Syniadau newydd a chyffrous sy'n cynnwys cynulleidfaoedd a chymunedau.



- Celf o ansawdd uchel.

## Cydraddoldeb ac ymgysylltu

Rydyn ni eisiau:



- Cyrraedd cymunedau sy'n aml yn cael eu gadael allan a'i gwneud hi'n haws iddyn nhw ymuno.



- Cael pobl o bob cymuned mewn swyddi celfyddydol a chynulleidfaoedd.

## Cymraeg

Rydyn ni eisiau:




- Cefnogi cyfleoedd i ddefnyddio a thyfu'r Gymraeg.




- Helpu i gadw'r Gymraeg yn gryf yn y celfyddydau.

## Cyfiawnder hinsawdd

Rydyn ni eisiau:



- Cefnogi gwaith sy'n gwneud i bobl fod eisiau gofalu am y blaned.



- Gwneud y celfyddydau yn dda i'r amgylchedd.

## Datblygu talent

Rydyn ni eisiau:



- Hyfforddiant ac arweinyddiaeth i bobl o bob cefndir.




- Gwaith teg, cyflog teg a mynediad cyfartal i bawb.

## Newid


Rydyn ni eisiau:



- Helpu’r celfyddydau i gymryd risgiau a delio â newid.



- Golygu rhywbeth i bobl yng Nghymru.



Rhaid i bob prosiect hefyd ddilyn **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru 2015**. Mae hyn yn meddwl gweithio tuag at ddyfodol mwy teg a gwell i bawb yng Nghymru.

# Hygyrchedd




Rydyn ni’n gallu rhoi gwybodaeth i chi mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain.




Fe fyddwn ni hefyd yn ceisio rhoi gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol i Gymraeg neu Saesneg os ydych chi’n gofyn.




Os ydych chi angen help gyda chymorth mynediad, mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan yma: [arts.wales/cy/cymorth-hygyrchedd](arts.wales/cy/cymorth-hygyrchedd)

# Cysylltu â ni



Os ydych chi angen cyngor am eich cynnig:

**E-bost**: datblygu@celf.cymru



Os ydych chi'n cael problemau gyda'r ffurflen gais neu'r porth:

**E-bost**: grantiau@celf.cymru



Rydych chi'n gallu cysylltu â ni hefyd drwy:

**Ffôn**: 03301 242733

Rhwng 10:00am a 4:00pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Mynediad

Mae mynediad yn meddwl gallu cymryd rhan. Er enghraifft, gallu mynd i mewn i le. Neu gallu defnyddio rhywbeth.